

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 4ydd o Orffennaf, 2019 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 6ed o Fehefin 2019.
3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mehefin 2019 gan y Cadeirydd.
4. Materion yn codi o'r cofnodion.

Ar y rhaglen.

5. Datgan buddiant personol.
6. Cyngor Gwynedd.

a) **Rheoliadau Arolwg Dosbarthiadau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006** - angen arolygu manau bob pedair mlynedd i weld os yw'r gorsafoedd pleidleisio yn addas - cyn 23 o Awst 2019.

b) **Canclwm siapaneaidd**

- Y Clerc wedi derbyn ateb gan Swyddog Llwybrau y Cyngor yn dweud:-
- **Llwybr Traeth Afonwen o dan y bont reilffordd** - "ei fod am drefnu torri, casglu a'i chwistrellu y canclwm".
- **Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa**
 - "yn anffodus oherwydd ei fod yn dod i lawr yr afon, ac heb gael gwared â phopeth bydd rhaid delio ag o pan fydd yn amharu ar ddefnydd y llwybr, fel ag yn Afonwen".

7. **Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

a) **Cais Rhif C18/1169/41/LL** - adeiladu sied amaethyddol / Lon Las, Llangybi.

b) **Cais Rhif C19/0527/41/LL** - estyniad i sied amaethyddol Hendre Bach, Llangybi.

c) **Cais Rhif C19/0544/41/LL** - cais i godi estyniad blaen ar yr eiddo - 14 Tyn Rhos, Chwilog.

ch) **Cais Rhif C19/0528/41/LL** - estyniad i sied amaethyddol bresennol Maen Llwyd, Pencaenewydd.

d) **Cais Rhif C19/0554/41/LL** -codi estyniad deulawr - Bryn Tirion, Chwilog

8. Lwfansau Cynghorydd rhwng 1af o Ebrill 2019 - 31ain o Fawrth 2020, angen i bob Cynghorydd lofnodi'r ffurflen os am gymryd neu wrthod y lwfans.

9. **Materion yn y gymuned.**

Llanarmon
Llanystumdwy

Mainc ar y llwybr o Lanystumdwy i Gricieth ger Lodge Ynysgain- wedi cael ei gosod gan Cybi Cyf.

Postyn giât llwybr troed ochr Llanystumdwy gyferbyn ag Abercin wedi syrthio – y Swyddog Llwybrau wedi mesur y postyn ac am drefnu i gontracwr fynd i’w newid.

Gwasanaeth bws drwy Llanystumdwy - wedi cael 3 trethdalwr yn cwyno am wasanaeth bysus sydd yn rhedeg trwy Lanystumdwy. Ar fwy nag un achlysur nid yw’r bws yn troi fyny o gwbl. Angen cysylltu efo Arriva / Caelloi i holi be ydi’r rheswm am hyn?

Bedd David Lloyd George – y Clerc wedi derbyn ymholiad yn dweud fod y garreg fedd wedi cael ei gorchuddio hefo mwsogl, ac yn gofyn pwy oedd yn gyfrifol am ofalu amdani. Y Clerc am wneud ymholiadau i ofyn os oes angen trefnu i’w dynnu oddi yna.

Rhoslan /Ynys

Chwilog

- Mainc newydd wedi cael ei gosod gan Cybi Cyf.
- Bin baw ci wedi cael ei daro lawr- ond wedi cael ei ail osod erbyn hyn.

Llwybr troed o Chwilog i Afonwen

Clerc heb dderbyn ymateb gan yr Adran Trafnidiaeth, Cyngor Gwynedd eto, ond yn gobeithio cael ateb cyn y cyfarfod.

Pont Rhydycroesau, ger Plas Talhenbont – y gwaith wedi cael ei wneud.

Pencaenewydd/Sardis

Angen giat fochyn newydd – ar derfyn y waen y tu cefn i Gapel Pencaenewydd, a Tyddyn Uchaf.

Llangybi

- Cwynion gan fwy nac un am swm awyren fechan sydd fel pe bai yn ymarfer hedfan a phlymio i lawr uwchben Llangybi/Pencaenewydd am oriau am ddyddiau rwan ac yn y man ers wythnosau. Cred rhai mai o Faes Awyry Caernarfon y daw, ac y dylai ymarfer yma ac acw er tegwch.
- **Y Clerc wedi gwneud ymholiadau, ac awyrlu “RAF Valley” oedd yn gyfrifol ac yn gwybod am y mater. Dyma oedd yr ymateb a dderbyniwyd ganddynt;**

“The aircraft you refer to are Texan T1 turbo-prop training aircraft operating from RAF Valley. From later this year, RAF Valley will undertake both advanced flying training on the Hawk T2, and Basic Flying Training using the Texan T1. At the moment, the aircraft are being flown by instructors, and later this year by both instructors and student pilots.

For technical reasons, the aircraft haven’t been cleared to fly over the sea. Once this issue is resolved, the Squadron will have a bigger area to train over, reducing noise levels to local residents.

We apologise for the noise, which we appreciate is a new and perhaps unusual compared to the Hawks that people are more used to.

I am happy to come to a meeting of the Council to discuss the matter face to face. It is also our intention to invite Councillors from all over the area to visit RAF Valley later this year, to meet the air and ground crew who operate the Texan and answer any questions”.

10. **Annibyniaeth i Gymru** – cais wedi dod fod Cyngor Cymuned Llanystumdwy yn “datgan ei bod yn cefnogi annibyniaeth i Gymru yn dilyn penderfyniad Cyngorau Machynlleth, Porthmadog a Ffestiniog i wneud yr un peth. A hefyd yn diolch i fudiadau fel “Ie Cymru”, am eu hymdrech i danio trafodaeth ar draws y wlad am y pwnc.” Angen trafod.

Materion Ariannol

11. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a’r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

12. **Cae chwarae Llangybi.**

Y Clerc wedi trafod cae chwarae, Llangybi hefo Mr Clifford Hughes, ac wedi cytuno y byddai’n fodlon gwneud dau doriad ychwanegol, i beth y cytunwyd llynedd. Angen trafod ar y noson.

Archwiliad Allanol Cyfrifon 2018-19.

Y Clerc wedi anfon y dogfennau y gofynwyd amdanynt at yr Archwilwyr Allanol erbyn 1af o Orffennaf 2019. Mae hefyd wedi gosod yr hysbysiadau yn y manau priodol ac ar y wefan.

Hysbysfwrdd – angen trafod sut rhai i’w cael yn Llanystumdwy, Pencaenewydd, Rhoslan a Chwilog.

Angen caniatad i’r Clerc dalu biliau yn ystod misoedd Gorffennaf ag Awst ar ol ymgynghori gyda’r Cadeirydd/Is-gadeirydd.

Angen caniatad i’r Clerc roi sylwadau ar geisiadau cynllunio a ddaw yn ystod misoedd Gorffennaf ag Awst ar ol ymgynghori gyda’r Cadeirydd/Is-gadeirydd.

13. Anfonebau angen eu talu:

Enw	Rheswm	Pris £	TAW £	Cyfanswm £	Taliad BACS
Cyngor Gwynedd	Toiledau Cyhoeddus Llanystumdwy	2000.00		2000.00 Anfoneb rhif 007950B0062748V B000081901	BACS
Cybi Cyf.	Gosod y ddwy fainc	486.00	97.20	583.20 (anfoneb 100382)	BACS
Mr Clifford Hughes	Cae chwarae Llangybi. Gweddill y llwybrau,sef Ffynnon Cybi, a thoriad 1af Afonwen/Ynysgain Bach/Ty Newydd/Bontfechan/Abercin	230.00 543.00		773.00 (anfoneb rhif 42)	BACS
Y Ffynnon	Hysbyseb yn rhifyn mis Mai 2019- i gael prisau i dorri’r llwybrau	30.00		30.00 (anfoneb rhif M1068)	BACS

Cyflog mis Mehefin a Gorffennaf 2019 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM-oherwydd nad oes cyfarfod mis Awst 2019.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad siec rhif:-
Cyflog sylfaenol y Clerc, Mehefin 2019 35 awr x £10.37 =	362.95-llai treth £72.40	<u>290.55</u>	101127
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Mehefin 2019	362.95 x 20% = llai treth £72.40	<u>72.40</u>	101128
Costau'r Clerc Mehefin 2019	40.21	<u>40.21</u>	101129
Cyflog sylfaenol y Clerc, Gorffennaf 2019 35 awr x £10.37 =	362.00 x 20% = £72.40	<u>290.55</u>	101130
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Gorffennaf 2019	362.00 x 20% = llai treth £72.40	<u>72.40</u>	101131
Costau'r Clerc Gorffennaf 2019	£16.00	<u>16.00</u>	101132

It is possible to get an English translation, please contact the Clerk